Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 28ain o Fehefin 2023

Agenda

1) Presennol

2) Ymddiheuriadau

3) Cod Ymddygiad

4) Cofnodion Cyfarfod diwethaf 31-05-2023

5) Materion yn codi o'r cofnodion

6) Adroddiad Ariannol
   - Mantolen Ariannol

7) Archwylio
   a. Mewnol
   b. Allannol 2022-23

8) Cofrestr Risg/Polisia

9) Taliadau angen sylw

a.	Cyflog Mehefin	£ 651.84
b.	HMRC M 3	£ 163.00
c.	Sioned Jones Cyfieithu	£ 40.00
d.	Gamlins	£ 798.00
e.	RoSPA Caerhun	£ 90.00
f.	Cymen	£ 224.81

10) Ceisiadau Nawdd

11) Prosiectau
   i. Ysgol Y Faenol
   ii. Septic tanc Glasinfryn
      1. Dechra Diwedd gorffennaf
      2. Cysylltu hefo Gamlins
   iii. Capel y Fynwent
      1. Cynllun/Spec i'r llawr
   iv. Lon Plas

I'w trafod hefyd

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 31ain o Fai 2023

1. Presennol Cyng I Ellis, Cyng L A James; Cyng J Pierce; Cyng J Lewis; Cyng B Jones; Cyng D W Jones Cyng D Jones-Morris a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau Pawb yn bresennol

3. Cod Ymddygiad Nodwyd fod Cyng L A James a Cyng J Pierce yn aelodau o bwyllgor rheoli'r Ganolfan

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-04-2023
   Ar gynnig Cyng J Pierce gafodd ei eilio gan y Cyng B Jones cadarnhawyd eu bod yn gofnodion cywir

5. Materion yn codi o'r cofnodion
   Nododd y cadeirydd fod diffygion ariannol yn gysylltiedig ag adeiladu'r Ganolfan newydd wedi eu adnabod yn ogystal a chostau llogi'r sy'n dal yn ddyledus.
   Mae Trysorydd y Ganolfan yn ymwybodol o'r diffygion ag yn eu dilyn i fyny i geisio eu ad-ennill
   Bydd Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ymlaen ar y 6ed o Orffennaf pan fydd Cyfrifon 2021-22 a 2022-23 yn cael eu cyflwyno ar ol cael eu dychwelyd gan yr archwilydd
6. Adroddiad Ariannol
   - Mantolen Ariannol

   Roedd y fantolen wedi ei rhannu ag yn dangos £31,833.89 yn y cyfrif cyfredol tra bod y cyfrif cadw yn parhau ar £45,242.50

7. Archwylio Dim diweddariad

8. Cofrestr Risg/Polisia
   - Rheolau/Telerau'r Fynwent

   Dosbarthwyd telerau a rheolau y fynwent sydd heb eu adolygu ers 2018 ynghyd telerau cynghorau cyfagos. Cytunwyd i argymell i'r Cyngor Llawn ein bod yn codi fel a ganlyn

Telerau'r Gladdfa / *Burial Terms*

Ffioedd / *Fees* 2023

Mynwent Pentir ***Pentir Cemetery***	**Trigolion Lleol** ***Local Residents***	**Eraill** ***Others***
Plot a Chladdu a hawl i osod carreg ***Plot and Burial plus right to erect a headstone***	250.00 i **300.00**	500.00 i **600.00**
Maint carreg fedd dim mwy na 3 troedfedd o led a 4 troedfedd o uchder **Headstone to be no more than 3 feet wide and 4 foot in height**		
Ail-agor Bedd ***Re-Opening grave***	**200.00**	**400.00**
Claddu Llwch / Burial of Cremated remains		
Plot amlosgi claddu llwch a gosod carreg ***Cremation plot burial of ashesand right to erect a headstone***	150.00 i **200.00**	300.00 i **400.00**
Maint carreg fedd dim mwy na 2 droedfedd **o led a 3 troedfedd o uchder**		
Maint carreg fedd dim mwy na 3 droedfedd o led a 3 troedfedd o uchder **Headstone to be no morer than** 2 feet wide **and 3 foot in height**		
Headstone to be no morer than 3 feet wide and 3 foot in height		

Ail-agor plot amlosgi ***Reopening a cremation plot***	110.00 i **200.00**	220.00 i **400.00**
Defnydd o'r Capel **Use of Chapel**	**£50.00**	**£50.00**
Ffi ymchwil ***Reserch fee***	**-**	**50.00**

Parthed y Rheolau
Newid maint y cerrig bed llwch
Ychwanegu nad yw'r Cyngor yn ystyried gwerthu plotiau mlaen llaw
Sicrhau fod unrhyw blot sydd wedi ei werthu yn y gorffennol yn cael ei ddefnyddio o fewn cyfnod amser e.e 50 – 70 ne efallai 75 mlynedd **Clerc i holi Amlosgfa am arweiniad**

- Polisi Meinciau 'er cof'

Cais wedi ei dderbyn i osod mainc arall er cof am annwyliad
Cytuno mewn egwyddor i ystyried pob cais yn unigol ond rhaid sicrhau bod y meiciau o ddefnydd naturiol ag o'r un pryd a un sydd yno eisioes
Rhaid cael 'base' concrid oddi tan y fainc a bod y fainc wedi ei angora yn sowd i'r concrit
Cyfrifoldeb y teulu yw cynnal a chadw'r Fainc
Mae gan y Cyngor Hawl i dynnu a gwaredu unrhyw fainc sy'n achos peryg i ddiogelwch defnyddwyr y Fynwent

9. Taliadau angen sylw
   Argymell talu bob un Cyflog Mai £651.84 HMRC M 2 £ 163.00
   Lowri A James Offer Penrhos £ 1,084.35 + £11.54 = **£1095.89**
   Howard Huws Cyfieithu £ 40.00 D W Lewis £745.00 Costau Swyddfa £ 131.26 Ink a Toner
   Emyr Williams(Goleuadau) £ 666.00 G L Jones 3 Invoice £22,894.27
10. Ceisiadau Nawdd dim cais mis yma

11. Prosiectau
    - Ysgol Y Faenol

    Yn dilyn llythyr gan ei Cyfreithwyr yn derbyn y gwahoddiad i gyfarfod swyddogion o Wynedd i drafod problemau parcio ag yn y blaen – 'does dim ymateb i gynnig dyddiadau wedi dod yn ol Nodwyd eisioes fod problemau ynglyn a darllen mesurydd nwy ac yn y blaen yn achosi gryn drafferth

    - Septic tanc Glasinfryn

    Clerc angen ail-gychwyn trafodaethau gyda'r contarctwr benodwyd i gael dyddiad cychwyn ond fod y contarctwr wedi cael profedigaeth

    - Capel y Fynwent
      - Cynllun/Spec i'r llawr

    Clerc wedi trafod gyda Cwmni Cadarn o Langefni ynglyn a'n bwriad a chael ar ddeallt byddai rhaid ystyried cael 'soakaway' tu allan i ffin y Fynwent
    Mae'r Clerc wedi ymweld a pherchennog cyfagos ond heb gael ymateb
    Cytunwyd gofyn i Cadarn ymweld a chynnig opsiynau ag amserlen ar gyfer y Gawith gan bwysleisio mae ein blaenoriaeth am eleni ydi adnewyddu'r llawr

<u>I'w trafod hefyd</u>
Cyng L A James yn adrodd iddi dderbyn cwyn ynglyn a safon y cyfieithu ar y pryd yn absennoldeb y cyfieithydd arferol
<u>Cyng J Lewis yn holi am y bwrdd gwybodaeth yn Pentir – Cyngor Llawn wedi trafod os oedd y fenter yn werth am arian ag efallai bod angen derbyn prisiau gan eraill</u>
<u>Clerc yn son iddo gael galwad gan Swyddog Trafnidiaeth Gwynedd yn trafod Ffordd Menai a wedi rhannu adroddiad oedd y Swyddog wedi ei anfon ato</u>
'Roedd wedi gwahodd y Swyddog i ymweld a'r Cyngor i gael trafodaethau pellach
<u>Daeth y cyfarfod i ben am 9.00</u>